VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

**CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU**

**Fforwm Cyllideb Ysgolion**

**Dydd Mercher 20 Medi 2023**

**AELODAU'N BRESENNOL:** Trevor Baker, David Blackwell, Chris Britten, Tim Exell, Mari Gibbs, y Cynghorydd Emma Goodjohn, Rhodri Jones, Rhys Angell Jones, Martin Price, Terry Vaughan-Taylor, Ruth Foster, y Cynghorydd R Birch, Paula Vaughan, Norman Craggs,

**Hefyd yn bresennol:** Rachel Cox, David Davies, Liz Jones, Lisa Lewis,

| Eitem | Mater | Trafodaeth | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 1. | Croeso ac Ymddiheuriadau | Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau. | |
| 2. | Cofnodion y cyfarfod blaenorol<br><br>Materion yn codi | Cytunwyd fel cofnod cywir.<br><br>Nid oedd unrhyw faterion yn codi nad oeddent yn rhan o'r agenda. Cofnodwyd bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd fod Nicola Monckton wedi'i secondio i Lywodraeth Cymru am chwe mis. Mae'n gyfle gwych i ddefnyddio arbenigedd Nicolas, fodd bynnag, bydd yn golled enfawr i'r awdurdod lleol a hefyd i'r fforwm cyllideb hwn. | |
| 3. | Aelodaeth a chyfansoddiad y Fforwm Cyllideb | Rhannwyd aelodaeth a chyfansoddiad y Fforwm Cyllideb gyda'r fforwm er gwybodaeth.<br>Dywedodd y Cadeirydd fod swydd wag ar gyfer Clwstwr y Barri oherwydd ymddeoliad Vince Browne. Gofynnwyd am gynrychiolydd a bydd diweddariad ar unrhyw enwebiadau yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf. | DB |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4. | Rhagamcanion o falansau ysgolion dros y tair blynedd nesaf | Cyfeiriodd TB at y daenlen a oedd ynghlwm wrth yr agenda a oedd yn dangos y sefyllfa bresennol. Mae'r diffygion yn amrywio'n sylweddol ac mae'r ddogfen yn rhoi persbectif da o ran yr ystod o heriau sydd gennym. Mae 21 o ysgolion a oedd yn rhagweld diffyg a hyd yn hyn mae 18 wedi cyflwyno manylion ynghylch pam nad ydynt yn gallu adfer dros gyfnod o dair i bum mlynedd ar hyn o bryd. Mae trafodaethau parhaus gyda rhai o'r ysgolion hynny wrth symud ymlaen. Rydym wedi cysylltu ag awdurdodau eraill ac nid yw'r sefyllfa hon yn unigryw i'r Fro. Mae Caerdydd mewn sefyllfa debyg ac mae nifer o awdurdodau lleol eraill sydd ag ysgolion â diffygion yr ystyrir eu bod yn anadferadwy. Ymdrinnir â’r rhain mewn sawl ffordd.<br>Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid i ysgolion fod â chyllideb wedi’i mantoli yn yr un modd ag y mae'n rhaid i awdurdodau lleol fod â chyllideb wedi’i mantoli, nid yw sut mae hynny'n ymwneud â realiti'r sefyllfa wedi’i drafod. Os nad yw ysgolion yn gallu mantoli'r gyllideb o fewn y cyfnod o dair i bum mlynedd, yna mae angen i’r awdurdod lleol ddechrau fod yn gyfrifol am y cyllidebau hynny eto. Byddem dim ond yn gwneud hyn pe bai achos o gamreoli ariannol. O ystyried yr amgylchiadau presennol, ni fyddai hyn yn briodol. Nid yw'r rhain yn faterion hunanosodedig oherwydd camreoli ariannol. Mae tynnu'r cyllidebau oddi ar ysgolion dan yr amgylchiadau hynny dim ond yn mynd i wneud pethau'n waeth.<br>Dywedodd DB fod gan un ysgol yn benodol warged sylweddol, nad yw’n cyd-fynd o gwbl â phawb arall.<br>Dywedodd TB fod hyn oherwydd yr arian iddi gario ymlaen. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn ymchwilio i hynny ychydig yn ddyfnach. Cyfarwyddir ysgolion y bernir bod ganddynt falansau gormodol i'w gwario, ac os yw'r ysgol yn gwrthod gwario ei balans gormodol, yna gallwn ei chrafangio yn ôl. Yn gyntaf, mae angen i ni nodi pam y cariwyd cymaint o arian ymlaen. | |
| 5. | Pwysau cost cyllideb y gyfarwyddiaeth 2024/25 | Amlinellodd TB y pwysau cost a gyflwynwyd gan Ddysgu a Sgiliau at ddibenion tryloywder. Mae'r Cyngor yn wynebu bwlch ariannu sylweddol ar hyn o bryd, tua £24 miliwn. Yr adeg hon y llynedd roedd rhywle oddeutu £34 miliwn. Cafodd ei ostwng i £6m erbyn diwedd y broses. Nid yw'n glir ar hyn o bryd pa ostyngiadau y gellir eu gwneud eleni, ond mae hyn yn amlygu'r cyd-destun y byddwn yn gweithredu ynddo yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6. | Cynnydd wedi'i gyllidebu mewn dyfarniadau cyflog yn 2024/25 | Dywedodd LL na chyrhaeddwyd unrhyw setliadau cyflog terfynol ac mae cyllid canolog wedi cadarnhau na fyddwn yn cynyddu cyllidebau diwygiedig 23/24 ar gyfer dyfarniadau cyflog 2023, felly bydd y cyllidebau (rhai ysgolion a rhai nad ydynt yn ysgolion) yn parhau i gael eu gosod ar raddfeydd cyflog cyllideb wreiddiol 23/24.<br>Fel nodyn atgoffa – y dyfarniadau cyflog yn y gyllideb wreiddiol yw<br>Graddau Statws Sengl 1-11 - 6% o Ebrill 2023<br>Athrawon - 6.5% o fis Ebrill 2023 i fis Awst 2023, a 5% ychwanegol o fis Medi 2023. Roedd hyn yn amlwg yn peri pryder ac fe'i hystyriwyd yn y pwysau cost a amlinellwyd yn flaenorol o dan eitem 5 yr agenda. | |
| 7. | Diweddariad Grantiau | Dosbarthodd LL ddogfen ynghylch arian grant a ddilyswyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.<br><br>Gall ysgolion gael gwybodaeth am grantiau 2022/23 drwy fynd i'r ddolen ganlynol ar wefan Consortiwm Canolbarth y De. (Nid yw'r wybodaeth hon ar gael ar gyfer grantiau 2023/24 eto ond bydd gwybodaeth 23/24 yn cael ei chyhoeddi gan ddefnyddio'r un ddolen)<br>https://www.cscjes-cronfa.co.uk/repository/resource/99d2c7b9-4126-4ffe-b318-164dcc696898/en<br><br>Rhoddwyd gwybod i'r fforwm fod pob dyraniad grant bellach yn cael ei adlewyrchu yng nghyllidebau ysgolion heblaw Grant Gwella Ysgolion y Consortiwm Rhanbarthol (£5,430,200) a fydd yn cael ei ddosbarthu ar ôl i Gonsortiwm Canolbarth y De dderbyn data cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion wedi'i ddilysu. | |
| 8. | Her Ariannu Addysg Llywodraeth Cymru CLILC | Rhoddodd MP wybod am ddeiseb i'r Senedd a gyflwynwyd i annog trafodaeth am ariannu ysgolion yng Nghymru. Cyflwynodd MP bapur i'r Senedd yn amlinellu sut brofiad yw addysgu mewn ysgol pan nad oes digon o arian. Cyrhaeddodd y ddeiseb 6700 o bobl, yr oedd traean ohonynt o'r Fro. Bydd y ddeiseb hon yn cael ei thrafod yn fyw.<br>Rhoddodd MP wybod i'r fforwm hefyd am yr her gyfreithiol bosibl ynglŷn â'r fformiwla ariannu. Mae cyfarfod heddiw gyda chadeiryddion llywodraethwyr y Fro i drafod yr hyn y | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | dylem ei wneud. Cafwyd cyngor gan gyfreithiwr a bargyfreithiwr ac anfonwyd llythyr at y Gweinidog ar ein rhan gyda gwahanol bwyntiau yr oeddem am eu codi. Yn y bôn, mae'r ffordd y mae'r fformiwla ariannu yn gweithio ar gyfer dyrannu arian i addysg wedi'i chysylltu'n sylfaenol â'r fformiwla ariannu llywodraeth leol ar gyfer yr holl wariant ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'n fformiwla gymhleth iawn sy’n seiliedig ar gyfres gyfan o atchweliad llinol lluosog, fformiwlâu ystadegol ac yn y bôn mae'n dal i fynd yn ôl i ddata sydd wedi dyddio.<br>Mae'r adolygiad o ariannu hyd yn hyn dim ond wedi canolbwyntio ar sut mae arian yn cael ei ddosbarthu ar y lefel honno a sut y gallent newid y rheoliadau, heb edrych ar y fformiwla sylfaenol. Y rhan anodd o safbwynt llywodraethwyr y Fro yw ei bod yn dasg fawr herio'r sail gyfan y mae arian awdurdodau lleol yn cael ei ddyrannu arni yng Nghymru, ac mae'n debygol y bydd y broses honno’n ddrud. Mae ffyrdd y gellid ei wneud i'w gwneud yn llai costus, er enghraifft, gallem ddewis plentyn neu grŵp o blant y mae’r fformiwla yn ei roi/eu rhoi dan anfantais a chychwyn adolygiad barnwrol ac yna cael cymorth cyfreithiol ar gyfer hynny neu gallem fynd at farnwr a gofyn am gap costau. Mae'r naill neu'r llall o'r rhain yn cynnwys risg a chost sylweddol. Bydd MP yn cael barn y llywodraethwyr yn y cyfarfod heno ynghylch a oes awydd i wneud hynny. Mae'r agwedd foesol iddo hefyd, hynny yw os nad oes digon o arian mewn ysgolion, a ddylem fod yn gwario rhywfaint o'r arian hwnnw ar achos cyfreithiol ac yn talu cyfreithwyr?<br>Dywedodd TB fod MP yn derbyn cyngor, oherwydd yn dibynnu ar bwy gyflwynodd yr adolygiad barnwrol, mae hyn yn cael effaith ar yr hyn y gallai'r costau cysylltiedig hyn fod. Dywedodd TB hefyd y byddai'n ddefnyddiol iawn i benaethiaid a rhai llywodraethwyr gyflwyno i Graffu rai o'r materion hyn a chyfrannu at drafodaethau i sicrhau bod trafodaeth gadarn i dynnu sylw at yr heriau.<br>Cytunodd y Cynghorydd Goodjohn gyda TB a gofynnodd i ni ystyried dod â phlant i graffu a chyflwyno achos personol i weld sut mae'r plant yn cael eu heffeithio ganddo. | |
| 9. | Diweddariad ar yr adolygiad o Arian Anghenion | Dywedodd EJ fod cyfarfodydd y gweithgor wedi dechrau ac y bydd yn dod â phapur yn ôl i'r fforwm ar ôl i ni benderfynu pa un o'r opsiynau a ystyriwyd y tecaf. Amlinellodd EJ hefyd y gwahanol heriau i anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar ôl covid gan wahaniaethu | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ychwanegol Prif Ffrwd | rhwng y rhai a nodwyd fel rhan o'r Ddeddf ADY a'r rhai a ddigwyddodd ar ôl COVID nad ydynt yn gysylltiedig â'r ddeddf ond sy'n cael effaith sylweddol ar y ffordd y caiff ADY eu rheoli, yn enwedig sy'n gysylltiedig ag anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol. | EJ |
| 10 | Diweddariad ar yr adolygiad o'r fformiwla ariannu ysgolion arbennig | Mae cyfres o gyfarfodydd hefyd wedi'u trefnu ar gyfer yr adolygiad hwn a bydd diweddariad yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. | EJ |
| 11 | Unrhyw fusnes arall | Gofynnodd NC a oes unrhyw fudd ariannol wrth optio allan o'r consortiwm? Dywedodd DB fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar haen ganol arweinyddiaeth ar draws Cymru ar hyn o bryd.<br><br>Dywedodd R Jones fod penaethiaid yn derbyn bod y sefyllfa'n enbyd a gan ein bod ni wastad wedi bod yn dryloyw nid oes llawer ar ôl i ni ei herio. Cytunodd DB ac anogodd ysgolion eraill i dynnu sylw at enghreifftiau ymarferol o effaith ac astudiaethau achos i'w rhannu â'r arweinydd yn ein cyfarfod nesaf.<br><br>Gofynnodd PV am eglurhad ar brydau ysgol i bob plentyn. Yn benodol, beth sy'n digwydd os nad yw disgyblion yn manteisio ar y cynnig. Dywedodd Trevor mai dim ond prydau y manteisir arnynt y mae Llywodraeth Cymru yn eu hariannu, a bod gwahaniaeth yn y gost rhwng y swm a ad-delir a chost y pryd. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu £2.90 y pryd ond maen nhw'n costio £3.22 i ni. Mae'r diffyg hwn yn cael ei dalu trwy Big Fresh ar hyn o bryd.<br><br>**<u>Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf</u>** - Ar fore Mercher, 9.30am ar Microsoft Teams<br><br>• 20 Medi 2023<br>• 29 Tachwedd 2023 (gwahoddiad i'r arweinydd, y Pennaeth Cyllid a'r Prif Weithredwr)<br>• 6 Mawrth 2024 | |